

Henaint

Darllen: Luc 2: 29–32

Yn Efengyl Luc, cawn hanes dau a oedd mewn gwth o oedran ac yn cynrychioli crefydd Israel ar ei gorau. Mewn gweddi a myfyrdod, mae Simeon ac Anna'n disgwyl y Meseia. Cynrychiolai'r ddau'r bobl dawl hynny a oedd yn disgwyl adferiad y genedl. Gan fod yr Iddewon yn credu mai hwy oedd y genedl ddewisedig, yr oedden nhw'n credu'n angerddol y byddai Duw ryw ddydd yn ymyrryd ac yn eu gwneud nhw'n feistri'r byd ac yn arglwyddi'r cenhedloedd i gyd. I lawer, byddai'r dydd hwnnw yn ddydd o orfoledd, a byddai'r llyffetheiriau a'r maglau wedi'u torri a'r genedl yn cael ei chodi a'i dyrchafu. Ond roedd cnewyllyn bychan, y rhai tawel, yn gweddïo a myfyrio'n ddi-baid ac yn cadw llygaid ar agor am arwyddion o ddyfodiad Duw i blith ei bobl. Un o'r rhain oedd Simeon, hynafgwr oedd yn gweddïo'n ddyfal a diwyd gan gredu y byddai Duw yn dod i gysuro'i bobl. Disgwyl oedd Simeon am 'ddiddanwch Israel' (Luc 2:25). Roedd yr ymadrodd hwn yn adleisio addewid Eiseia, 'Cysurwch, cysurwch fy mhobl' (Eiseia 40: 1). Mae'n bur debyg fod Simeon yn ymwybodol o hanes ei genedl: edrych ymlaen, yn hytrach nag edrych yn ôl, a wnâi am ei fod yn gwybod bod y profiad gorau i ddod yn y dyfodol. Gwyddai, gan fod Duw wedi addo iddo trwy'r Ysbryd Glân, y byddai'n cael byw i weld Meseia'r Arglwydd. Dyna weithgarwch yr Ysbryd ym mywyd Simeon: creu dyhead am bosibiliadau a phrofiad newydd, ac agor llygaid pobl i'r digwyddiadau dwyfol hyn. Creu dyhead ac awch am weld gorau Duw a wnâi'r Ysbryd Glân.

Cafodd Simeon weld, 'oherwydd y mae fy llygaid wedi gweld dy iachawdwriaeth' (Luc 2:30), a bu'r profiad yn ddigon i wneud iddo farddoni (Luc 2: 29–32, sef Cân Simeon neu'r *Nunc Dimittis* yn Lladin). Gwelodd waredigaeth a gobaith Israel yn y babi bach oedd yn ei freichiau, ac er mor ddwfn oedd ei wreiddiau yn hanes ei genedl gwelai'r hynafgwr hwn fod a wnelo genedigaeth Iesu â'r holl genhedloedd. Mae Simeon yn mynd ymlaen i grynhoi cenhadaeth y babi bach a orweddi yn ei freichiau.

Gosodwyd ef ‘er cwmp a chyfodiad llawer yn Israel’ (Luc 2:34). Hynny yw, trwy wrthdaro a dioddef y deuai diddanwch Israel. Ac mewn gwirionedd, ni châi Mair ei fam osgoi’r gwrthdaro hwn, ‘a thithau, trywenir dy enaid di gan gleddyf’ (Luc 2:35). Mae Simeon yn gweld ymhell, ac yn proffwydo y byddai cenhadaeth Iesu yn ei arwain i farwolaeth Calfaria ac i obaith y trydydd dydd.

Ategwyd geiriau Simeon gan Anna’r broffwydes oedrannus. Roedd hithau’n hen ond roedd hi wedi dal ati i obeithio ar hyd ei hoes. Fe all henaint wanychu a llorio’r corff, ond ni all bylu’r gobaith. Daliodd ati i weddio ac addoli ddydd a nos. Ni adawodd Anna i’r blynyddoedd ei chwerwi, a chadwodd ei ffydd a’i gobaith i’r diwedd am ei bod wedi cadw cysylltiad â ffynhonnell ei gobaith, ei chysur a’i chynhaliaeth, sef Duw ei hun.

Myfyrdod pellach:

Pa mor bwysig yw dyfalbarhau a dal ati?

Beth sydd gan henaint i’w ddysgu i ni? Oes yna fanteision?